CYB A5 cards 29/7/06 8:13 pm Page 3

1 Llwybr Cefndeuddwr
Cefndeuddwr Trail say 'kevin-day-thoor'

1m/1.5km - hawdd
45 munud
graddiant mwyaf 12%

Dechrau

O Faes Parcio'r Ganolfan Ymwelwyr.

Uchafbwynt

Yr uchafbwynt yn ddiamau yw'r wylfan a'r ardal bicnic yng Nghefndeuddwr, gyda'i golygfeydd godidog o Gadair Idris a'r Garn ac i'r gogledd ar hyd crib y Rhinogydd tuag at Drawsfynydd.



A wyddoch chi?

mai Dôlgefeiliau yw enw'r rhan hon o'r Parc Coedwig? Byddai'r gof yn yr efail gerllaw yn arfer pedoli gwartheg, moch, defaid, a gwyddau hyd yn oed cyn iddynt gael eu gyrru dros y mynyddoedd gan y porthmyn yr holl ffordd i farchnad Smithfield yn Lloegr.

1m/1.5km - easy
45 mins
max gradient 12%

Start

From the Visitor Centre Car Park

Highlights

This has to be the viewpoint and picnic area at Cefndueddwr (two rivers ridge) with it's panoramic views to Y Garn and northward along the remote Rhinog ridge towards Trawsfynydd.

Did you know?

that this area of the Forest Park is known as Dôlgefeiliau (say 'doll-guh-vale-ee-aye') and means meadow of the smithies? A nearby blacksmith's shop used to shoe cattle, pigs, sheep and even geese for 'drovers' taking animals across the mountains all the way to the Smithfield market in England.

CYB A5 cards 29/7/06 8:14 pm Page 4

1 Llwybr Cefndeuddwr - Y daith
Cefndeuddwr Trail - The route

Mae'r llwybr hwn, sy'n codi'n raddol, yn addas ar gyfer y teulu cyfan ac ar gyfer cadeiriau gwthio. Ceir meinciau i chi orffwys bob 150m o leiaf. Nid yw'n cynnwys unrhyw risiau na chamfeydd.

Mae hwn yn llwybr hyfryd ac mae'n ymdroelli drwy gaeau creigiog coediog a thrwy amrywiaeth o gynefinoedd gan gynnwys coed bytholwyrdd mawr, clystyrau o ffawydd a llennyrch agored o goed bedw a helyg ifanc wrth i chi ddringo'n raddol i wylfan Cefndeuddwr.

O'r wylfan hon, ewch yn ôl i'r ganolfan ymwelwyr ar hyd llwybr y goedwig, a chewch weld golygfeydd hyd at Grawcwellt a thu hwnt yn y pellter.

Gall ymwelwyr anabl yrru i'r wylfan a'r safle picnic yng Nghefndeuddwr. Gallwch gael cyfarwyddiadau ac allwedd ar gyfer y glwyd yn y ganolfan ymwelwyr yn ystod oriau agor arferol.

This is gently rising walk for all the family and suitable for pushchairs with resting benches at least every 150m. There are no steps or stiles.

A beautiful route winding through wooded boulder fields passing through a mixture of habitats, including large evergreens, stands of beech and open young birch and willow, as the route gradually climbs to the Cefndeuddwr viewpoint.

From the viewpoint drop down back to the visitor centre along the forest track with distant views to Crawcwellt and beyond.

Disabled visitors have the option of driving to the viewpoint and picnic site at Cefndeuddwr. Pick up a key for the gate and directions from the visitor centre during normal opening times.